O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2408 (Cy. 259)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Rasa i Gylchfan Brynmawr, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *11 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Rasa i Gylchfan Brynmawr, Blaenau Gwent) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 11 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn wedi'i gwblhau;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A465 ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n ymestyn o Gylchfan Rasa i Gylchfan Brynmawr a'r cyfan o hyd y ffordd ymuno tua'r dwyrain yng Ngarnlydan.